OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1992

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

## RHAN 11

### Anifeiliaid a ddygir i mewn i Gymru

**Derbyn anifeiliaid o Aelod-wladwriaeth arall**

**32.**—(1) Ni chaiff neb dderbyn anifail o Aelod-wladwriaeth arall onid yw'r anifail wedi ei adnabod yn unol â'r canlynol—

(a) Rheoliad y Cyngor, yn achos anifail a anwyd ar ôl 9 Gorffennaf 2005; neu

(b) Cyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC, yn achos anifail a anwyd ar neu cyn 9 Gorffennaf 2005.

(2) Cyflawnir trosedd os tynnir ymaith neu os amnewidir dull adnabod gwreiddiol anifail sy'n tarddu o Aelod-wladwriaeth arall yn groes i Erthygl 4(5) o Reoliad y Cyngor.

**Derbyn anifeiliaid o Loegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Diriogaethau Dibynnol y Goron**

**33.** Ni chaiff neb dderbyn anifail o Loegr, yr Alban. Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw onid yw'r anifail wedi ei adnabod a bod dogfen symud yn dod ynghyd â'r anifail yn unol ag—

(a) yn achos anifail a anwyd ar ôl 9 Gorffennaf 2005, Rheoliad y Cyngor, gan gynnwys unrhyw randdirymiad a arferwyd o dan Reoliad y Cyngor; neu

(b) yn achos anifail o Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon a anwyd ar neu cyn 9 Gorffennaf 2005, y Gorchmynion blaenorol ac unrhyw ofynion ychwanegol a osodwyd mewn deddfwriaeth sy'n gorfodi Rheoliad y Cyngor mewn perthynas â'r anifeiliaid hynny; neu

(c) yn achos anifeiliaid o Diriogaethau Dibynnol y Goron a anwyd ar neu cyn 9 Gorffennaf 2005, Cyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC.

**Adnabod anifeiliaid a fewnforir o drydydd gwledydd**

**34.**—(1) Cyflawnir trosedd os yw ceidwad yn methu â chydymffurfio ag Erthygl 4(4) o Reoliad y Cyngor a'r erthygl hon.

(2) At ddibenion Erthygl 4(4) (y paragraff cyntaf) o Reoliad y Cyngor, y cyfnod ar gyfer adnabod anifail yw 14 diwrnod.

(3) Rhaid i fodd adnabod anifeiliaid a fewnforir o drydedd wlad fod o'r un math â'r hyn a nodir yn Erthygl 4(2)(a) a (b) ac Erthygl 9(3) o Reoliad y Cyngor, a'r cod adnabod at ddibenion Adran A.2 o'r Atodiad yw—

(a) y llythrennau "UK"; a

(b) rhif 12 digid yn unol â chynllun rhifo a ragnodir gan Weinidogion Cymru.

(4) Pan gaiff anifail ei fewnforio o drydedd wlad a'i ailadnabod yn unol â'r erthygl hon, rhaid i'r ceidwad gofnodi gwybodaeth ynghylch ychwanegu'r modd adnabod newydd yn y gofrestr, ynghyd â'r cod adnabod llawn sydd ar y modd adnabod newydd a'r cod llawn sydd ar y dull adnabod a osodwyd yn y drydedd wlad.

**Colli dulliau adnabod a osodwyd mewn trydedd wlad**

**35.** Pan gaiff anifail ei fewnforio o drydedd wlad a'i ailadnabod wedyn yn unol ag Erthygl 4(4) o Reoliad y Cyngor, nid yw'n ofynnol i'r ceidwad amnewid dull adnabod a osodwyd yn y drydedd wlad os bydd hwnnw wedyn yn cael ei golli neu'n mynd yn annarllenadwy.